
Cynnig y Gyllideb Flynyddol 2023-24

Gosodwyd gerbron Senedd Cymru gan Y Prif Weinidog

Chwefror 2023

Cynnig y Gyllideb Flynyddol

1. Gofynnir i'r Senedd gytuno ar y canlynol:

- Gwneir y penderfyniad hwn ar gyfer y flwyddyn sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2024 gan Senedd Cymru ("y Senedd") yn unol ag Adran 125 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ("y Ddeddf").

2. Dylai'r Cynnig Blynnyddol hwn ar gyfer y Gyllideb gael ei ddarllen ochr yn ochr â dogfennau'r gyllideb a gyhoeddwyd ar 28 Chwefror 2023.

Llywodraeth Cymru

3. Awdurdodir Llywodraeth Cymru -

(a) i ddefnyddio adnoddau (heb gynnwys adnoddau cronuss) yn ystod y flwyddyn ariannol sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2024 ar y gwasanaethau a'r dibenion a nodir yng Ngholofn 1 o Atodlen 1, hyd at uchafswm y symiau cyfatebol a nodir yng Ngholofn 2 o'r Atodlen honno;

(b) yn ogystal, i gadw incwm, yn y categorïau adnoddau cronuss a nodir yng Ngholofn 1 o bob Rhan o Atodlen 2, yn ystod y flwyddyn ariannol sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2024, ar gyfer ei ddefnyddio ar y gwasanaethau a'r dibenion a nodir yng Ngholofn 2 o bob Rhan o'r Atodlen honno, hyd at y terfyn a nodir ar gyfer pob Rhan o'r Atodlen honno; ac

(c) i gymryd arian parod o Gronfa Gyfunol Cymru i'w ddefnyddio ar y gwasanaethau a'r dibenion a nodir yn Atodlen 1, hyd at derfyn y gofyniad net am arian parod a nodir yn Atodlen 5.

4. Er gwaethaf paragraffau 2(a) a (b), caiff yr adnoddau y gellir eu defnyddio ar gyfer y gwasanaethau a'r dibenion a bennir yng Ngholofn 1 o Atodlen 1 (neu, fel y bo'n briodol, yng Ngholofn 2 o bob Rhan o Atodlen 2), fod yn uwch na'r swm a bennir yn y cofnod cyfatebol yng Ngholofn 2 o Atodlen 1 (neu, fel y bo'n briodol, ym mhob rhan o Atodlen 2)-

(a) os bodlonir yr amod cyntaf, yn achos adnoddau heb gynnwys adnoddau cronuss, neu

(b) os bodlonir yr ail amod, yn achos adnoddau cronuss.

5. Yr amod cyntaf yw nad yw cyfanswm yr adnoddau (heb gynnwys adnoddau cronuss) a ddefnyddir yn ystod y flwyddyn ariannol yn dod i ben 31 Mawrth 2024 ar gyfer yr holl wasanaethau a dibenion a bennir yng Ngholofn 1 o Atodlen 1 yn uwch na chyfanswm y symiau a bennir yng Ngholofn 2 o'r Atodlen honno.

6. Yr ail amod yw nad yw cyfanswm yr adnoddau cronuss a ddefnyddir yn ystod y flwyddyn ariannol yn dod i ben 31 Mawrth 2024 ar gyfer yr holl wasanaethau a dibenion a bennir yng Ngholofn 2 o Atodlen 2 yn uwch na chyfanswm y symiau a bennir ar gyfer pob rhan o'r Atodlen honno.

7. O dan Adran 126A o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, gall cynnig cyllidebol ar gyfer blwyddyn ariannol gynnwys gwybodaeth ynglŷn â'r adnoddau y disgwylir iddynt gael eu defnyddio gan unrhyw gorff sy'n gorff dynodedig mewn perthynas â pherson perthnasol. Mae adnoddau'r cyrff sydd wedi'u dynodi o dan Orchymyn Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (Cynigion Cyllidebol a Chyrff Dynodedig) 2018 (fel y'i diwygiwyd) wedi'u cynnwys yn y cynnig y gyllideb flynyddol.

Y Comisiwn Etholiadol

8. Mewn perthynas â'r Comisiwn Etholiadol, awdurdodir Llywodraeth Cymru-

(a) i ddefnyddio adnoddau (heb gynnwys adnoddau cronuss) yn ystod y flwyddyn ariannol sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2024 ar gyfer y gwasanaethau a'r dibenion a nodir yng Ngholofn 1 o Atodlen 1A, hyd at uchafswm o'r symiau cyfatebol a nodir yng Ngholofn 2 o Atodlen 1A;

(b) yn ogystal, i gadw incwm, o fewn y categorïau adnoddau cronuss a nodir yng Ngholofn 1 o Atodlen 2A, yn ystod y flwyddyn ariannol sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2024, i'w ddefnyddio ar y gwasanaethau a'r dibenion a nodir yn y cofnodion cyfatebol yng Ngholofn 2 o'r Atodlen honno, hyd at y terfyn a bennir ar gyfer Rhan 1 o'r Atodlen honno.

(c) i dynnu arian allan o Gronfa Gyfunol Cymru i'w ddefnyddio ar y gwasanaethau a'r dibenion a bennir yng Ngholofn 1 o Atodlen 1A, hyd at y terfyn gofyniad arian parod net a bennir yn Atodlen 5.

Comisiwn y Senedd

9. Awdurdodir Comisiwn y Senedd -

(a) i ddefnyddio adnoddau (heb gynnwys adnoddau cronuss) yn ystod y flwyddyn ariannol sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2024 ar y gwasanaethau a'r dibenion a nodir yng Ngholofn 1 o Ran 1 o Atodlen 3, hyd at uchafswm y symiau cyfatebol a nodir yng Ngholofn 2 o Ran 1 o Atodlen 3;

(b) yn ogystal, i gadw incwm, yn y categorïau adnoddau cronuss a nodir yng Ngholofn 1 o Ran 1 o Atodlen 4, yn ystod y flwyddyn ariannol sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2024, ar gyfer ei ddefnyddio ar y gwasanaethau a'r dibenion a nodir yn y manau cyfatebol yng Ngholofn 2 o Ran 1 o'r Atodlen honno, hyd at y terfyn a nodir ar gyfer Rhan 1 o'r Atodlen honno; ac

(c) i gymryd arian parod o Gronfa Gyfunol Cymru i'w ddefnyddio ar y gwasanaethau a'r dibenion a nodir yng Ngholofn 1 o Ran 1 o Atodlen 3, hyd at derfyn y gofyniad net am arian parod a nodir yn Atodlen 5.

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

10. Awdurdodir Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru -

(a) i ddefnyddio adnoddau (heb gynnwys adnoddau cronnus) yn ystod y flwyddyn ariannol sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2024 ar y gwasanaethau a'r dibenion a nodir yng Ngholofn 1 o Ran 2 o Atodlen 3, hyd at uchafswm y symiau cyfatebol a nodir yng Ngholofn 2 o Ran 2 o Atodlen 3;

(b) yn ogystal, i gadw incwm, yn y categorïau adnoddau cronnus a nodir yng Ngholofn 1 o Ran 2 o Atodlen 4, yn ystod y flwyddyn ariannol sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2024, ar gyfer ei ddefnyddio ar y gwasanaethau a'r dibenion a nodir yn y manau cyfatebol yng Ngholofn 2 o Ran 2 o'r Atodlen honno, hyd at y terfyn a nodir ar gyfer Rhan 2 o'r Atodlen honno; ac

(c) i gymryd arian parod o Gronfa Gyfunol Cymru i'w ddefnyddio ar y gwasanaethau a'r dibenion a nodir yng Ngholofn 1 o Ran 2 o Atodlen 3, hyd at derfyn y gofyniad net am arian parod a nodir yn Atodlen 5.

Swyddfa Archwilio Cymru

11. Awdurdodir Swyddfa Archwilio Cymru -

(a) i ddefnyddio adnoddau (heb gynnwys adnoddau cronnus) yn ystod y flwyddyn ariannol sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2024 ar y gwasanaethau a'r dibenion a nodir yng Ngholofn 1 o Ran 3 o Atodlen 3, hyd at uchafswm y symiau cyfatebol a nodir yng Ngholofn 2 o Ran 3 o Atodlen 3;

(b) yn ogystal, i gadw incwm, yn y categorïau adnoddau cronnus a nodir yng Ngholofn 1 o Ran 3 o Atodlen 4, yn ystod y flwyddyn ariannol sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2024, ar gyfer ei ddefnyddio ar y gwasanaethau a'r dibenion a nodir yn y manau cyfatebol yng Ngholofn 2 o Ran 3 o'r Atodlen honno, hyd at y terfyn a nodir ar gyfer Rhan 3 o'r Atodlen honno; ac

(c) i gymryd arian parod o Gronfa Gyfunol Cymru i'w ddefnyddio ar y gwasanaethau a'r dibenion a nodir yng Ngholofn 1 o Ran 3 o Atodlen 3, hyd at derfyn y gofyniad net am arian parod a nodir yn Atodlen 5.

Manyleb y Categorïau o Adnoddau Cronnus

12. Mae'r categorïau o adnoddau cronnus a restrir yng Ngholofn 1 o bob Rhan o Atodlen 2, Atodlen 2A ac yng Ngholofn 1 o bob rhan o Atodlen 4, yn categorïau penodedig at ddibenion Adran 120(2)(a) o'r Ddeddf.

Crynodeb o'r Gofynion Adnoddau a Chyfalaf

Gweinidogion Cymru

Cwmpas	Adnoddau (£000)	Adnoddau Cronnus (£000)
Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol	10,979,811	68,869
Cyllid a Llywodraeth Leol	5,024,514	3,113
Y Gymraeg ac Addysg	3,431,482	685,164
Newid Hinsawdd	3,025,598	13,189
Yr Economi	570,609	580,402
Materion Gwledig	482,480	31,004
Cyfiawnder Cymdeithasol	178,288	2
Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu	362,810	7,000
Cyfanswm yr Adnoddau y Gofynnir Amdanynt a'r Incwm Cronnus mewn perthynas â Gweinidogion Cymru (ac eithrio'r Comisiwn Etholiadol)	24,055,592	1,388,743
Y Comisiwn Etholiadol	1,414	0
Cyfanswm yr Adnoddau y Gofynnir Amdanynt a'r Incwm Cronnus mewn perthynas â Gweinidogion Cymru	24,057,006	1,388,743

Cyrff a Ariennir yn Uniongyrchol

Cwmpas	Adnoddau (£000)	Adnoddau Cronnus (£000)
Comisiwn y Senedd	67,643	170
Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru	5,750	19
Swyddfa Archwilio Cymru	8,452	16,133
Cyfanswm yr Adnoddau a'r Incwm Cronnus ar gyfer Cyrff a Ariennir yn Uniongyrchol	81,845	16,322

Atodlen 1 – Cwmpas gwariant Gweinidogion Cymru

Rhan 1: Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Cwmpas gwariant Gweinidogion Cymru (ac eithrio adnoddau cronrus)	
<i>Colofn 1</i>	<i>Colofn 2</i>
<i>Gwasanaethau a dibenion</i>	<i>Swm £000</i>
<p>I'w ddefnyddio gan Weinidogion Cymru ar Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, gan gynnwys hybu, gwella neu gefnogi lles economaidd, cymdeithasol neu amgylcheddol.</p> <p>Cyflenwi gwasanaethau GIG craidd a gwasanaethau GIG wedi'u targedu, gan gynnwys amhariadau a darpariaethau; cefnogi addysg a hyfforddiant i weithlu'r GIG a hosbisau; noddi cyrff iechyd cyhoeddus, rhaglenni iechyd y cyhoedd; trefniadau effeithiol i baratoi ar gyfer argyfwng iechyd; gofal a chymorth cymdeithasol, partneriaethau ac integreiddio, gwasanaethau cymdeithasol cynaliadwy, Gofal Cymdeithasol Cymru; cyllid ar gyfer CAF/CASS; gwariant ar gefnogi plant ac unrhyw wariant cysylltiedig a defnydd o adnoddau anghyllidol.</p>	10,979,811

Rhan 2: Cyllid a Llywodraeth Leol

Cwmpas gwariant Gweinidogion Cymru (ac eithrio adnoddau cronrus)	
<i>Colofn 1</i>	<i>Colofn 2</i>
<i>Gwasanaethau a dibenion</i>	<i>Swm £000</i>
<p>I'w ddefnyddio gan Weinidogion Cymru ar lywodraeth leol a chymunedau a rhaglenni cyllid a gwasanaethau, gan gynnwys hybu, gwella neu gefnogi lles economaidd, cymdeithasol neu amgylcheddol.</p> <p>Cyllid i gefnogi llywodraeth leol, gan gynnwys cyllid cyfalaf cyffredinol a gwasanaethau prisio; meithrin democratiaeth leol; cefnogi cydweithio, diwygio a gwella. Ariannu Academi Wales, Arolygiaeth Gofal Cymru, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ac Estyn. Hefyd yn cynnwys unrhyw wariant cysylltiedig a defnydd o adnoddau anghyllidol.</p> <p>Gwariant ar ariannu cyrff allanol gan Lywodraeth Cymru; cyfrifoldebau cyllidol (gan gynnwys benthyca a threthiant datganoledig; y gronfa Buddsoddi i Arbed; prynu asedau tir a datblygu'r asedau hyn drwy Ystadau Cymru; Bargeinion Dinesig a Thwf a gwasanaethau caffael ac unrhyw wariant cysylltiedig a defnydd o adnoddau anghyllidol.</p> <p>Cyllid ar gyfer amrywiaeth o weithgarwch Caffael Masnachol gan gynnwys: pennu'r cyfeiriad polisi strategol ar gyfer Caffael yng Nghymru; datblygu sgiliau gallu a gallu ehangach yn y sector cyhoeddus; diwygio caffael; darparu rhaglen o drefniadau cydweithredol cenedlaethol; cefnogi amrywiaeth o ysgogwyr Llywodraeth Cymru o ran deddfwriaeth a pholisi ac unrhyw wariant cysylltiedig a defnydd anghyllidol.</p>	5,024,514

Rhan 3: Y Gymraeg ac Addysg

Cwmpas gwariant Gweinidogion Cymru (ac eithrio adnoddau cronrus)	
<i>Colofn 1</i>	<i>Colofn 2</i>
<i>Gwasanaethau a dibenion</i>	<i>Swm £000</i>
<p>I'w ddefnyddio gan Weinidogion Cymru ar Addysg a'r Gymraeg gan gynnwys hybu, gwella neu gefnogi lles economaidd, cymdeithasol neu amgylcheddol.</p> <p>Gwariant ar safonau addysg a hyfforddiant, gan gynnwys llythrennedd a rhifedd, cwricwlwm, addysgu ac arweinyddiaeth, cymwysterau, addysg ôl-16, addysg uwch, grant datblygu disgyblion, TGCh a systemau rheoli gwybodaeth, a darpariaeth TG ac ystadau; ymgysylltiad a chyflogaeth ieuenctid; lles plant a phobl ifanc; cymorth i ddysgwyr ôl-16; ennyn diddordeb disgyblion; addysg cyfrwng Cymraeg a dwyieithog; cefnogi'r Gymraeg a Chomisiynydd y Gymraeg; cymorth cyflawni; ac unrhyw wariant cysylltiedig a defnydd o adnoddau anghyllidol.</p>	3,431,482

Rhan 4: Newid Hinsawdd

Cwmpas gwariant Gweinidogion Cymru (ac eithrio adnoddau cronrus)	
<i>Colofn 1</i>	<i>Colofn 2</i>
<i>Gwasanaethau a dibenion</i>	<i>Swm £000</i>
<p>I'w ddefnyddio gan Weinidogion Cymru ar Dai, Trafnidiaeth, Ynni, Amgylchedd, Effeithlonrwydd Adnoddau a Chynllunio gan gynnwys hyrwyddo, gwella neu gefnogi lles economaidd, cymdeithasol neu amgylcheddol.</p> <p>Cyllid i gefnogi cynllunio a rheoleiddio a thai i Gynyddu'r Cyflenwad a'r Dewis o Dai Fforddiadwy a Thai Marchnad; cefnogi pobl i fyw'n annibynnol yn eu cartrefi drwy'r Gronfa Cefnogi Pobl, Byw'n Annibynnol a Gofal Integredig ac atal digartrefedd. Cyllid i gefnogi cymunedau gan gynnwys Adfywio; systemau trafndiaeth gan gynnwys hyrwyddo a chefnogi lles economaidd, cymdeithasol neu amgylcheddol i fusnesau, unigolion, cymunedau a lleoedd yng Nghymru; gweithrediadau traffyrdd a chefnffyrdd; gwella a chynnal a chadw'r rhwydwaith cefnffyrdd; gwasanaethau a buddsoddiad ar y ffyrdd, y rheilffyrdd, yr awyr a'r môr; teithio cynaliadwy; gwella diogelwch ar y ffyrdd; darparu a hwyluso seilwaith; darparu polisi a rhaglenni troswaol ar ddatblygu cynaliadwy ac amgylchedd rheoli adnoddau naturiol, morol, cynllunio a rheoleiddio; apeliadau cynllunio a gwasanaethau penderfyniadau amgylcheddol cysylltiedig yng Nghymru; datblygu a gweithredu polisi newid hinsawdd, effeithlonrwydd ynni, ynni adnewyddadwy ac ynni'r môr, Twf Gwyrdd, economi gylchol, seilwaith gwyrdd, diogelu'r amgylchedd, risg llifogydd a risg arfordirol gan gynnwys cynnal a chadw tomenni glo, polisi a deddfwriaeth dŵr a charthffosiaeth; cyflenwi polisiau cadwraeth natur a choedwigaeth; noddi a rheoli cyrff cyflawni; hyrwyddo a chefnogi tirweddau gwarchoddedig a mynediad ehangach i fannau gwyrdd a rheoli môr Cymru ac unrhyw wariant cysylltiedig a defnydd o adnoddau anghyllidol.</p>	3,025,598

Rhan 5: Yr Economi

Cwmpas gwariant Gweinidogion Cymru (ac eithrio adnoddau cronrus)	
<i>Colofn 1</i>	<i>Colofn 2</i>
<i>Gwasanaethau a dibenion</i>	<i>Swm £000</i>
<p>I'w ddefnyddio gan Weinidogion Cymru i'w wario ar yr Economi, gan gynnwys hybu a chefnogi lles economaidd, cymdeithasol neu amgylcheddol busnesau, unigolion, cymunedau a lleoedd yng Nghymru a seilwaith digidol.</p> <p>Gwariant ar sectorau a datblygu busnesau rhanbarthol; Cymoedd Technoleg, Busnes Cymru, allforio, masnach a mewnfuddsoddi; arloesi; gwyddoniaeth; gwyddorau bywyd; darparu seilwaith sy'n gysylltiedig ag eiddo; rhaglenni corfforaethol a strategaeth; Banc Datblygu Cymru; Tasglu'r Cymoedd; twristiaeth a Digwyddiadau Cymru i hyrwyddo Cymru; cefnogi diwylliant a'r celfyddydau drwy Gyngor Celfyddydau Cymru, Amgueddfa Genedlaethol Cymru, Llyfrgell Genedlaethol Cymru; Cymru Greadigol ac eraill; cymorth i ddiwylliant a chwaraeon lleol; y cyfryngau a chyhoeddi drwy Gyngor Llyfrau Cymru; cefnogi'r amgylchedd hanesyddol a naturiol drwy Cadw, yr Ardd Fotaneg Genedlaethol a Chomisiwn Brenhinol Henebion Cymru; hyrwyddo chwaraeon a gweithgarwch corfforol drwy Chwaraeon Cymru ac eraill; prentisiaethau; darparu cymorth ar gyfer sgiliau; cyflogadwyedd a'r Warant i Bobl Ifanc; rheoli'r gwaith o ddarparu cyllid Ewropeaidd yng Nghymru ac unrhyw wariant cysylltiedig a defnydd o adnoddau anghyllidol sy'n rhoi budd economaidd ehangach i Gymru. Datblygu a chyflawni polisïau a rhaglenni trosfwaol sy'n ymwneud â rheoli ffiniau.</p>	570,609

Rhan 6: Materion Gwledig

Cwmpas gwariant Gweinidogion Cymru (ac eithrio adnoddau cronrus)	
<i>Colofn 1</i>	<i>Colofn 2</i>
<i>Gwasanaethau a dibenion</i>	<i>Swm £000</i>
<p>I'w ddefnyddio gan Weinidogion Cymru i'w wario ar Faterion Gwledig, gan gynnwys hybu, gwella neu gefnogi lles economaidd, cymdeithasol neu amgylcheddol.</p> <p>Datblygu a gweithredu polisiâu a rhaglenni cyffredinol ar amaethyddiaeth, bwyd, pysgodfeydd, datblygu sylfaen dystiolaeth briodol i ategu gwaith amgylchedd a materion gwledig; gwarchod iechyd a lles anifeiliaid a datblygu polisiâu addasu genetig; gweinyddu a chyflawni'r Polisi Amaethyddol Cyffredin; darparu'r rhaglenni yn y Cynllun Datblygu Gwledig; cefnogi ffermwyr a chymunedau gwledig Cymru; datblygu, monitro a modelu ar sail tystiolaeth ar gyfer materion gwledig; datblygu a rheoli pysgodfeydd a dyframaethu Cymru, gan gynnwys gorfodi pysgodfeydd Cymru; datblygu a marchnata bwyd a diod Cymru, ac unrhyw wariant cysylltiedig a defnydd o adnoddau anghyllidol.</p> <p>Polisi Sŵn a Rheoleiddio Sŵn; Cofrestru, Gwerthuso, Awdurdodi a Chyfyngu ar Gemegau (REACH) a'r polisi Cemegau; Gwarchod a rheoli bywyd gwyllt, gan gynnwys rheoli plâu, chwyn niweidiol a fermin a rheoleiddio iechyd planhigion, hadau a phlaladdwyr; Rhandroedd a seilwaith gwyrdd trefol; Mannau Gwyrdd Cymunedol; Mynediad i gefn gwlad, yr arfordir a hawliau tramwy a dyfrffyrdd / cyrff dŵr; Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol; Parc Cenedlaethol newydd (Bryniau Clwyd); Cnydau a Addaswyd yn Enetig.</p>	482,480

Rhan 7: Cyfiawnder Cymdeithasol

Cwmpas gwariant Gweinidogion Cymru (ac eithrio adnoddau cronrus)	
<i>Colofn 1</i>	<i>Colofn 2</i>
<i>Gwasanaethau a dibenion</i>	<i>Swm £000</i>
<p>I'w ddefnyddio gan Weinidogion Cymru i'w wario ar Gyfiawnder Cymdeithasol gan gynnwys cefnogi cymunedau, gwella neu gefnogi lles cymdeithasol; diogelwch cymunedol a datblygu rhyngwladol.</p> <p>Cyllid i gefnogi cymunedau gan gynnwys atal trais; cydraddoldeb a chydlyniant cymunedol; gwasanaethau cyngori; y sector gwirfoddol; diogelwch cymunedol; y Comisiynydd Pobl Hŷn; y Comisiynydd Plant; Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol; cymorth a diogelwch cymunedol; cynhwysiant digidol ac ariannol; gwasanaethau tân ac achub; glasbrintiau troseddwr benywaidd a chyfiawnder ieuenctid; tloidi tanwydd; partneriaethau cymdeithasol; rhaglen Cymru yn Affrica; Chwarae Teg; sefydlu a chynnal safleoedd Sipsiwn/Teithwyr, hyrwyddo datblygiad a chysylltiadau rhyngwladol ac unrhyw wariant cysylltiedig a defnydd o adnoddau anghyllidol.</p>	178,288

Rhan 8: Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu

Cwmpas gwariant Gweinidogion Cymru (ac eithrio adnoddau cronrus)	
<i>Colofn 1</i>	<i>Colofn 2</i>
<i>Gwasanaethau a dibenion</i>	<i>Swm £000</i>
<p>I'w ddefnyddio gan Weinidogion Cymru i wario ar Wasanaethau Canolog a Gweinyddu a chydnerthedd; argyfyngau sifil posibl; a Chysylltiadau Rhyngwladol.</p> <p>Gwariant ar gostau rhedeg Llywodraeth Cymru (gan gynnwys costau staff; gweinyddu cyffredinol; rheoli asedau; cyfalaf a thaliadau cyfalaf; costau TG a Digidol; gwella busnes; a darpariaethau ar gyfer ymddeoliad cynnar a phensiynau); cost etholiadau a refferenda: gwybodaeth ystadegol ac ymchwil; ariannu cyrff a gwasanaethau allanol (gan gynnwys y Comisiwn Cyfansoddiadol a Thrawsnewid Cyfiawnder); Diwygio'r Senedd; digwyddiadau a chyfathrebu corfforaethol; Ymholiadau ac Ymchwiliadau (gan gynnwys cymryd rhan yn yr Ymchwiliad COVID-19 i'r DU gyfan) ; cydnerthedd ac argyfyngau sifil posibl; hyrwyddo Cysylltiadau Rhyngwladol ac unrhyw wariant cysylltiedig a defnydd o adnoddau anghyllidol.</p>	362,810

Atodlen 1A – Cwmpas ar gyfer gwariant Gweinidogion Cymru mewn perthynas â'r Comisiwn Etholiadol

Cwmpasau ar gyfer gwariant a Gweinidogion Cymru mewn perthynas â'r Comisiwn Etholiadol (ac eithrio adnoddau cronrus)	
<i>Colofn 1</i>	<i>Colofn 2</i>
<i>Gwasanaethau a dibenion</i>	<i>Swm £000</i>
I'w ddefnyddio gan y Comisiwn Etholiadol ar wariant sy'n codi mewn perthynas ag etholiadau a refferenda datganoledig Cymru; gweithgarwch rheoleiddio cysylltiedig gan gynnwys gwneud codau ymarfer; adolygu a chynghori ar weinyddu a chyfraith etholiadau ac annog arferion gorau; darparu canllawiau ar gynnal etholiadau a refferenda ac adrodd arnynt; pennu safonau perfformiad ar gyfer y rhai sy'n gweinyddu cofrestru etholiadol, etholiadau a refferenda, a chasglu gwybodaeth mewn perthynas â'r safonau hynny a gwariant ar etholiadau ac ymgyrchu; cynnal refferenda penodol a hyrwyddo ymwybyddiaeth y cyhoedd o systemau etholiadol.	1,414

Atodlen 2 – Defnydd o adnoddau cronrus gan Weinidogion Cymru

Rhan 1: Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

<i>Colofn 1</i>	<i>Colofn 2</i>
<i>Categori adnoddau cronrus</i>	<i>Gwasanaethau a dibenion y gellir cadw'r incwm ar eu cyfer</i>
<p>Mae'r adnoddau cronrus yn cynnwys incwm o dan y Cynllun Gwirfoddol ar gyfer Prisio a Rhoi Mynediad at Feddyginiaethau wedi'u Brandio; incwm mewn perthynas â setliadau hawliadau cyfreithiol; tâl am lety, nwyddau a gwasanaethau i gleifion preifat, cleifion y GIG, awdurdodau lleol ac eraill; ad-daliadau cyllid Buddsoddi i Arbed gan Fyrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau GIG Cymru; incwm oddi wrth Lywodraeth yr Alban, Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon, yr Adran Iechyd, adrannau llywodraeth eraill a'r Undeb Ewropeaidd; cynlluniau creu incwm; incwm anweithredol drwy werthu tir, adeiladau, cerbydau, offer ac eiddo, ac adennill TAW; incwm o gynlluniau a chytundebau ad-dalu.</p>	<p>Mae'r gwasanaethau a'r dibenion yn cynnwys gwariant ar wasanaethau iechyd sylfaenol a chymunedol; gwariant gan Ymddiriedolaethau GIG Cymru, Byrddau Iechyd Lleol a darparwyr gofal iechyd cysylltiedig yn prynu neu'n caffael asedau sefydlog; cefnogaeth i ddarparu a gweinyddu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.</p>
Cyfanswm yr incwm (£000)	68,869

Rhan 2: Cyllid a Llywodraeth Leol

<i>Colofn 1</i>	<i>Colofn 2</i>
<i>Categori adnoddau cronnus</i>	<i>Gwasanaethau a dibenion y gellir cadw'r incwm ar eu cyfer</i>
Adnoddau cronnus gan gynnwys ad-dalu ac adennill taliadau grant (gan gynnwys derbyniadau Buddsoddi i Arbed) ac adennill TAW; ffioedd a thaliadau a godwyd am gynnal arolygiadau a gwasanaethau rheoleiddio; darparu digwyddiadau hyfforddi a datblygu; ad-daliadau darparwyr hyfforddiant; taliadau am gofrestriadau deintyddol; incwm o secondiadau staff; ad-dalu benthyciadau gan gynnwys benthyciadau staff; incwm o werthu asedau datblygu; iawndal o dan setliadau masnachol a sifil a chodi ffioedd hwyluso.	Mae'r gwasanaethau a'r dibenion yn cynnwys costau rhedeg, costau gweinyddu cyffredinol a gwariant adnoddau'r Arolygiaethau a'r Tribiwnlys Prisio; darparu ymyriadau hyfforddiant i Wasanaeth Cyhoeddus Cymru; cefnogi gwariant cyfalaf ar asedau datblygu; talu grantiau i awdurdodau lleol a chefnogi'r holl wariant sydd wedi'i nodi yn y Cwmpas gwariant.
Cyfanswm yr incwm (£000)	3,113

Rhan 3: Yr Gymraeg ac Addysg

Colofn 1 <i>Categori adnoddau cronnus</i>	Colofn 2 <i>Gwasanaethau a dibenion y gellir cadw'r incwm ar eu cyfer</i>
<p>Mae'r adnoddau cronnus yn cynnwys incwm o brosiectau Ewropeaidd, ymchwil a gwerthuso; breindaliadau cwricwlwm; adennill Benthyciadau Myfyrwyr; arian o'r gronfa Gyfalaf Ymchwil Addysg Uwch a Chyllid Fformiwla Hyblyg ar gyfer Ymchwil Prifysgolion; gwerthu cyhoeddiadau ac adennill TAW.</p> <p>Mae'r adnoddau cronnus yn cynnwys ad-daliadau ac adennill taliadau grant; ffioedd a thaliadau a godwyd am gynnal arolygiadau a gwasanaethau rheoleiddio; darparu digwyddiadau hyfforddi a datblygu; incwm o secondiadau staff; ad-daliadau benthyciadau staff; incwm o werthiant asedau cyfalaf; adennill benthyciadau a wnaethpwyd ac unrhyw daliadau llog arnynt; adennillion a grantiau ad hoc o ffynonellau eraill.</p>	<p>Mae'r gwasanaethau a'r dibenion yn cynnwys cefnogi prosiectau Ewropeaidd, Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru, datblygu rhaglenni, gwariant cyfredol ar ymchwil a gwerthuso; i gefnogi gwariant cyfredol ar y cwricwlwm ac i gefnogi pob gwariant sydd wedi'i nodi yn y Cwmpas gwariant.</p>
Cyfanswm yr incwm (£000)	685,164

Rhan 4: Newid Hinsawdd

Colofn 1 <i>Categori adnoddau cronnus</i>	Colofn 2 <i>Gwasanaethau a dibenion y gellir cadw'r incwm ar eu cyfer</i>
<p>Mae adnoddau cronnus yn cynnwys ad-dalu ac adennill taliadau grant gan gynnwys incwm o ad-daliadau'r Grant Tai Cymdeithasol a chynlluniau grant eraill a buddsoddiadau ac incwm o gynlluniau benthyca; cyllid naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol gan y Comisiwn Ewropeaidd gan gynnwys incwm o gronfeydd strwythurol Ewropeaidd; cyfraniadau prosiect gan sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat; incwm buddsoddi; ad-daliadau grant a chyllid busnes ad-daladwy; incwm o werthu asedau cyfalaf; derbyniadau astudiaethau trafndiaeth; iawndal o dan setliadau masnachol a sifil ac ardoll ffioedd hwyluso; incwm o brosiectau ffermydd gwynt; incwm o Fferm Pwllpeiran; incwm o adenillion grant gan awdurdodau lleol, sefydliadau'r trydydd sector a sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat; dirwyon cosb sifil sy'n gysylltiedig â chynlluniau masnachu allyriadau; incwm o drwyddedau morol; grantiau ad hoc o ffynonellau eraill ac adennill TAW; cyllid gan adrannau eraill y llywodraeth ganolog; ac adennill TAW.</p>	<p>Mae gwasanaethau a dibenion yn cynnwys talu grantiau; cynlluniau a gefnogir yn rhannol gan adrannau eraill y llywodraeth; ad-dalu benthyciadau; pob prosiect a ariennir gan Ewrop ac i gefnogi'r holl wariant fel y nodwyd yn y Cwmpas gwariant.</p>
Cyfanswm yr incwm (£000)	13,189

Rhan 5: Yr Economi

<i>Colofn 1</i>	<i>Colofn 2</i>
<i>Categori adnoddau cronnus</i>	<i>Gwasanaethau a dibenion y gellir cadw'r incwm ar eu cyfer</i>
Adnoddau cronnus ac arian naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol gan y Comisiwn Ewropeaidd; rhentu eiddo ac incwm cysylltiedig arall; taliadau gwasanaethau busnes; incwm yn ymwneud â gweithgareddau gwyddoniaeth; cyfraniadau prosiect gan gyrff eraill yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat; incwm o fuddsoddiadau; ad-daliadau grant a chyllid busnes ad-daladwy gan gynnwys ad-daliadau benthyciadau; incwm o werthu asedau cyfalaf; taliadau mynediad ac incwm gweithredol arall i Cadw, gan gynnwys rhoddion; Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru; Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru a chyrff a noddir; Amgueddfa Genedlaethol Cymru; Llyfrgell Genedlaethol Cymru; Chwaraeon Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru; iawndal o dan setliadau masnachol a sifil a chodi ffioedd hwyluso; adennill TAW a threthi eraill.	Pob prosiect sy'n cael arian Ewropeaidd ac i gefnogi'r holl wariant sydd wedi'i nodi yn y Cwmpas gwariant.
Cyfanswm yr incwm (£000)	580,402

Rhan 6: Materion Gwledig

Colofn 1 <i>Categori adnoddau cronnus</i>	Colofn 2 <i>Gwasanaethau a dibenion y gellir cadw'r incwm ar eu cyfer</i>
<p>Mae'r adnoddau cronnus yn cynnwys arian naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol gan y Comisiwn Ewropeaidd, gan gynnwys incwm o gronfeydd strwythurol Ewropeaidd; incwm o'r UE i gefnogi ffermwyr a chymunedau gwledig yng Nghymru; incwm o adennill grantiau o'r awdurdodau lleol, cyrff y trydydd sector a chyrff eraill y sector cyhoeddus a'r sector preifat; dirwyon cosb sifil yn gysylltiedig â chynlluniau masnachu allyriadau ac erlyniadau bwyd; incwm o drwyddedau morol; incwm o achub carcasau o anifeiliaid sydd wedi'u lladd ar gyfer rheoli clefydau; grantiau ad hoc o ffynonellau eraill ac adennill TAW; arian o adrannau eraill y llywodraeth ganolog ac incwm sy'n gysylltiedig â Materion Gwledig.</p>	<p>Mae'r gwasanaethau a'r dibenion yn cynnwys gwariant sy'n ymwneud â thaliadau grant, erlyniadau bwyd, cynlluniau a ariennir yn rhannol gan adrannau eraill o'r llywodraeth; pob prosiect sy'n cael arian Ewropeaidd ac i gefnogi'r holl wariant sydd wedi'i nodi yn y Cwmpas gwariant.</p>
Cyfanswm yr incwm (£000)	31,004

Rhan 7: Cyfiawnder Cymdeithasol

<i>Colofn 1</i> <i>Categori adnoddau cronnus</i>	<i>Colofn 2</i> <i>Gwasanaethau a dibenion y gellir cadw'r incwm ar eu cyfer</i>
Mae adnoddau cronnus yn cynnwys ad-dalu ac adennill taliadau grant ac adennill TAW.	Mae gwasanaethau a dibenion yn cynnwys costau rhedeg, gweinyddu cyffredinol a chostau a gwariant ar adnoddau Comisiynwyr a Chwarae Teg; cefnogi gwariant ar gymunedau mwy diogel a thalu grantiau i awdurdodau lleol; a chefnogi'r holl wariant fel y nodir yn y Cwmpas gwariant.
Cyfanswm yr incwm (£000)	2

Rhan 8: Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu

Colofn 1 <i>Categori adnoddau cronrus</i>	Colofn 2 <i>Gwasanaethau a dibenion y gellir cadw'r incwm ar eu cyfer</i>
<p>Mae'r adnoddau cronrus yn cynnwys incwm o weithgarwch gweinyddol megis: gwerthu nwyddau neu wasanaethau; gwerthu tir neu adeiladau; adennill costau; secondio staff a ffioedd staff; ad-dalu benthyciadau staff; adennill taliadau grant; ad-dalu didyniadau statudol o dan PAYE; adennill trethi gan gynnwys TAW; is-osod eiddo; gwerthu asedau gweinyddol; gwerthu nwyddau a gwasanaethau; incwm gweinyddol; incwm o wasanaethau TGCh a ddarparwyd; ad-daliadau darparwyr hyfforddiant; adennill y costau a rennir â chyrrff eraill yn y sector cyhoeddus; derbyniadau o grantiau adenilladwy ac arian naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol oddi wrth y Comisiwn Ewropeaidd.</p>	<p>Mae'r gwasanaethau a'r dibenion yn cynnwys ariannu costau cynnal a gwariant gweinyddol cyffredinol; cefnogi gwariant cyfalaf ar sylfaen ystadau ac asedau Llywodraeth Cymru; cydnerthedd a threfniadau wrth gefn; Datblygu Rhyngwladol a chysylltiadau rhyngwladol; ac unrhyw brosiect sy'n cael arian Ewropeaidd.</p>
Cyfanswm yr incwm (£000)	7,000

Atodlen 2A – Defnydd o adnoddau cronrus gan Weinidogion Cymru mewn perthynas â'r Comisiwn Etholiadol

<p><i>Colofn 1</i></p> <p><i>Categori adnoddau cronrus</i></p>	<p><i>Colofn 2</i></p> <p><i>Gwasanaethau a dibenion y gellir cadw'r incwm ar eu cyfer</i></p>
<p>Adnoddau cronrus sy'n codi mewn perthynas ag etholiadau a refferenda datganoledig Cymru: cofrestru ac ailgofrestru pleidiau gwleidyddol; darparu canllawiau ar gynnal etholiadau a referenda ac adrodd arnynt; pennu safonau perfformiad ar gyfer y rhai sy'n gweinyddu cofrestru etholiadol, etholiadau a refferenda, a chasglu gwybodaeth mewn perthynas â'r safonau hynny a gwariant ar etholiadau ac ymgyrchu; cynnal refferenda penodol a hyrwyddo ymwybyddiaeth y cyhoedd o systemau etholiadol; ac unrhyw eitemau eraill nad ydynt yn arian parod.</p>	<p>Cefnogi'r holl wariant fel y'i nodwyd yn y Cwmpas gwariant.</p>
<p>Cyfanswm yr incwm (£000)</p>	<p>0</p>

Atodlen 3 – Gwariant Cyrff a Ariennir yn Uniongyrchol (heb gynnwys adnoddau cronrus)

Rhan 1 – Comisiwn y Senedd

<i>Colofn 1</i>	<i>Colofn 2</i>
<i>Gwasanaethau a dibenion</i>	<i>Swm £000</i>
Adnoddau heblaw adnoddau cronrus i'w defnyddio gan Gomisiwn y Senedd ar gostau adnoddau a chyfalaf sy'n gysylltiedig â gweinyddu a gweithredu Gwasanaethau'r Senedd i gefnogi Senedd Cymru ('y Senedd'); hyrwyddo'r Senedd gan gynnwys taliadau i'r Comisiwn Etholiadol ac eraill; taliadau mewn perthynas â'r Comisiynydd Safonau a'r Bwrdd Cydnabyddiaethau Ariannol; unrhyw daliadau eraill sy'n ymwneud â swyddogaethau'r Cynulliad neu swyddogaethau Comisiwn y Senedd. Adnoddau heblaw adnoddau cronrus i'w defnyddio gan Gomisiwn y Senedd mewn perthynas â phenderfyniadau'r Bwrdd Cydnabyddiaethau Ariannol a gwariant yn ymwneud â darpariaeth pensiynau Aelodau'r Senedd.	67,643

Rhan 2 - Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

<i>Colofn 1</i>	<i>Colofn 2</i>
<i>Gwasanaethau a dibenion</i>	<i>Swm £000</i>
Adnoddau heblaw adnoddau cronrus i'w defnyddio gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ('yr Ombwdsmon') ar gostau adnoddau a chyfalaf sy'n gysylltiedig â gweinyddu swyddfa'r Ombwdsmon; taliadau i gymdeithas Ombwdsmyr Prydain ac Iwerddon; taliadau i'r Sefydliad Ombwdsmyr Rhyngwladol; ac eitemau anghyllidol cysylltiedig.	5,750

Rhan 3 – Swyddfa Archwilio Cymru

<i>Colofn 1</i>	<i>Colofn 2</i>
<i>Gwasanaethau a dibenion</i>	<i>Swm £000</i>
Adnoddau heblaw adnoddau cronrus i'w defnyddio gan Swyddfa Archwilio Cymru ar gyflawni swyddogaethau statudol Swyddfa Archwilio Cymru a'r Archwilydd Cyffredinol, ac ar weinyddu Swyddfa Archwilio Cymru.	8,452

Atodlen 4 – Defnydd o Adnoddau Cronnus gan Gyrrff a Ariennir yn Uniongyrchol

Rhan 1 – Comisiwn y Senedd

<i>Colofn 1</i>	<i>Colofn 2</i>
<i>Categori adnoddau cronnus</i>	<i>Gwasanaethau a dibenion y gellir cadw'r incwm ar eu cyfer</i>
Adnoddau cronnus i'w cadw yn unol ag adran 120(2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ac i'w defnyddio gan Gomisiwn y Senedd drwy waredu asedau sefydlog ac incwm cyfalaf arall; incwm rhenti; rhoddion; cymorth grant; ailgodi tâl; incwm o werthiant masnachol a gwasanaethau eraill a ddarperir i'r cyhoedd ac eraill.	I'w defnyddio i brynu neu gaffael asedau sefydlog ac i'w defnyddio i dalu costau gweinyddol y Senedd.
Cyfanswm yr incwm (£000)	170

Rhan 2 – Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

<i>Colofn 1</i>	<i>Colofn 2</i>
<i>Categori adnoddau cronnus</i>	<i>Gwasanaethau a dibenion y gellir cadw'r incwm ar eu cyfer</i>
Incwm o werthiant masnachol a gwasanaethau eraill a ddarperir i'r cyhoedd ac eraill.	I'w defnyddio ar wasanaethau cysylltiedig ac ar weinyddu gwasanaeth yr Ombwdsmon.
Cyfanswm yr incwm (£000)	19

Rhan 3 – Swyddfa Archwilio Cymru

<i>Colofn 1</i> <i>Categori adnoddau cronrus</i>	<i>Colofn 2</i> <i>Gwasanaethau a dibenion y gellir cadw'r incwm ar eu cyfer</i>
Adnoddau cronrus o ffioedd a thaliadau am wasanaethau archwilio, ardystio grantiau a gwasanaethau cysylltiedig; grantiau a dderbynnir i ariannu gwasanaethau archwilio; adennill costau eraill sy'n gysylltiedig â swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol neu Swyddfa Archwilio Cymru; amryfal incwm o gyhoeddiadau, cynadleddau, darparu gwasanaethau gweinyddol, proffesiynol a thechnegol; adennill costau, er enghraifft staff wedi'u secondio, benthyciadau i staff, taliadau lesio ceir; adennill unrhyw gostau yr eir iddynt ar ran trydydd parti; a llog a dderbynnir ar falansau gwaith.	I'w defnyddio gan Swyddfa Archwilio Cymru ar gyflawni swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol ac ar wasanaethau cysylltiedig â gweinyddu Swyddfa Archwilio Cymru.
Cyfanswm yr incwm (£000)	16,133

Atodlen 5: Cysoni Adnoddau ag Arian Parod – 2023-24 (£000)

	Gweinidogion Cymru	Y Comisiwn Etholiadol	Gweinidogion Cymru (Cyfanswm)	Comisiwn y Senedd	Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus	Swyddfa Archwilio Cymru
Gofyniad Adnoddau Net	21,772,059	1,414	21,773,473	67,143	5,717	8,142
Gofyniad Cyfalaf Net	2,283,533	0	2,283,533	500	33	310
Addasiadau:						
Taliadau cyfalaf	-520,131	0	-520,131	-5,406	-292	-355
Amhariadau	-680,835	0	-680,835	0	0	0
Symudiadau yn y darpariaethau	-135,757	0	-135,757	-1,800	0	0
Elw/Colled wrth werthu asedau	0	0	0	0	0	0
Symudiadau mewn stociau	0	0	0	0	0	0
Symudiadau mewn dyledwyr/credydwy	0	0	0	100	198	550
Defnyddio darpariaethau	0	0	0	0	0	0
Arall	0	0	0	1,434	-15	-5
Gofyniad Arian Parod Net iddod o Gronfa Gyfunol Cymru	22,718,869	1,414	22,720,283	61,971	5,641	8,642

Nodiadau:

1. Mae cynnwys a fformat y tabl hwn yn cydymffurfio ag Adran 125(1)(c) a 126(2) o'r Ddeddf. Mae'r Adran hon yn pennu bod yn rhaid, er mwyn awdurdodi'r cynnig, gael datganiad sy'n awdurdodi "the amount which may be paid out of the Welsh Consolidated Fund in the financial year to the relevant persons, or for use pursuant to a relevant enactment, for the purposes so specified". Gwneir y taliadau o Gronfa Gyfunol Cymru mewn arian parod, felly mae'r tabl hwn yn dangos y gofynion perthnasol o ran arian parod i gefnogi'r adnoddau y gofynnir amdanynt i gefnogi Atodlen 1 i 4, sy'n rhestru'r dibenion perthnasol y gellir defnyddio adnoddau ar eu cyfer.
2. Mae cynnwys a fformat y tabl hwn hefyd yn cydymffurfio â Rheol Sefydlog 20.28(v), sy'n pennu bod yn rhaid i gynnig y gyllideb gynnwys cysoniad o'r adnoddau sydd i'w hawdurdodi o dan Adran 125(1)(a) a (b) o'r Ddeddf â'r symiau sydd i'w hawdurdodi i'w talu o Gronfa Gyfunol Cymru o dan Adran 125(c) o'r Ddeddf.

Atodlen 6: Cysoni adnoddau y gofynnir amdanynt yng Nghynnig y gyllideb â'r adnoddau a ddarperir gan y Trysorlys ar gyfer Bloc Cymru ar gyfer 2023-24

	2023-24 (£000)				Cyfanswm
	DEL Adnoddau	DEL Cyfalaf	AME Adnoddau	AME Cyfalaf	
<i>Adnoddau y gofynnir amdanynt yng Nghynnig y Gyllideb:</i>					
- Gweinidogion Cymru	21,943,854	897,067	-171,795	1,386,466	24,055,592
- Y Comisiwn Etholiadol	1,414	0	0	0	1,414
- Comisiwn y Senedd	65,343	500	1,800	0	67,643
- Ombwdsmon	5,717	5	0	28	5,750
- Swyddfa Archwilio Cymru	8,142	310	0	0	8,452
Cyfanswm yr adnoddau y gofynnir amdanynt yng Nghynnig y Gyllideb Flynyddol	22,024,470	897,882	-169,995	1,386,494	24,138,851
<i>Addasiadau:</i>					
(i) Defnydd adnoddau gan Gyrrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru	15,698	0	-61,000	0	-45,302
(ii) Grantiau	-1,898,443	1,898,443	0	0	0
(iii) Benthycia â chymorth	0	88,800	0	0	88,800
(iv) Taliadau a godir yn uniongyrchol ar Gronfa Gyfunol Cymru	7,614	0	906,000	0	913,614
(v) Arall	16,148	0	0	0	16,148
Cyfanswm Gwariant a Reolir – Gweinidogion Cymru a Chyrrff a Noddir yn Uniongyrchol	20,165,487	2,885,125	675,005	1,386,494	25,112,111
- Swyddfa Cymru	5,888	30	0	0	5,918
- Benthycia	0	-150,000	0	150,000	0
- Trethi Datganoledig	-3,141,771	0	3,141,771	0	0
- Cronfa wrth gefn heb ei chlustnodi	555,523	-124,685	0	0	430,838
Cyfanswm y Gwariant a Reolir (Bloc)	17,585,127	2,610,470	3,816,776	1,536,494	25,548,867

Nodiadau:

1. Mae cyfanswm gofyniad Llywodraeth Cymru am adnoddau yn gyfwerth â chyfanswm y dyraniadau a gynhwyswyd yn y Cwmpasau yn Atodlen 1.

2. Dywed Rheol Sefydlog 20.28(ii) y dylai cynnig y gyllideb flynyddol gynnwys yr adnoddau y mae'r Trysorlys yn cytuno arnynt ar gyfer cyllideb bloc Cymru ar gyfer y flwyddyn ariannol y mae'r cynnig yn ymdrin â hi. Mae Atodlen 6 yn bodloni'r gofyniad hwn.
3. Dywed Rheol Sefydlog 20.28(iii) fod yn rhaid i gynnig y gyllideb flynyddol gynnwys cysoniad rhwng yr adnoddau a ddyrannwyd i gyllideb bloc Cymru gan y Trysorlys a'r adnoddau sydd i'w hawdurdodi i'w defnyddio yng nghynnig y gyllideb. Mae Atodlen 6 yn bodloni'r gofyniad hwn.
4. Dyma'r taliadau a godir yn uniongyrchol ar Gronfa Gyfunol Cymru.

Eitem	2023-24 £000
Taliadau i'r Gronfa Fenthyciadau Genedlaethol – Llog ^{Nodyn}	6,842
Cyflogau a chostau pensiwn cysylltiedig y Llywydd a'r Dirprwy Lywydd	275
Cyflogau a chostau pensiwn cysylltiedig yr Ombwdsmon	218
Cyflogau a chostau pensiwn cysylltiedig yr Archwilydd Cyffredinol	217
Cyflogau a chostau pensiwn cysylltiedig Cadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru	27
Cyflogau a chostau pensiwn cysylltiedig y Comisiynydd Safonau	35
Ardrethi Annomestig Cenedlaethol y gellir eu hailddosbarthu	906,000
Cyfanswm	913,614

Nodyn:

Amcangyfrifir bod £6,637,000 yn ychwanegol i'w godi'n uniongyrchol ar Gronfa Gyfunol Cymru mewn perthynas â'r prif ad-daliad i'r Gronfa Fenthyciadau Genedlaethol ar fenthyciad. Mae'r taliad hwn y tu allan i Gyfanswm y Gwariant a Reolir.

Atodlen 7: Cysoni'r llif arian parod i Gronfa Gyfunol Cymru â'r arian parod y gofynnir amdano yng Nghynnig y Gyllideb (£000)

	2023-24
Amcangyfrif o'r symiau net i'w talu i Weinidogion Cymru:	
Grant i'w dalu gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru i Gronfa Gyfunol Cymru o dan Adran 118 (1)	17,398,671
Talu Cyfradd Treth Incwm Cymru ymlaen i Gronfa Gyfunol Cymru	2,765,500
Arian wedi'i fenthycu o'r Gronfa Benthyciadau Cenedlaethol ac oddi wrth fanciau masnachol o dan Adran 121	150,000
Taliadau gan Adrannau Llywodraeth eraill	2,031,781
Taliadau o ffynonellau eraill	2,664,211
Llai y symiau a awdurdodwyd i'w cadw gan Weinidogion Cymru a Chyrff a Gyllidir yn Uniongyrchol	-1,405,065
Amcangyfrif o'r symiau i'w talu i Weinidogion Cymru	23,605,098
Dosbarthwyd fel a ganlyn:	
- Gweinidogion Cymru	22,718,869
- Y Comisiwn Etholiadol	1,414
- Comisiwn y Senedd	61,971
- Ombwdsmon	5,641
- Swyddfa Archwilio Cymru	8,642
Arian a ryddheir o Gronfa Gyfunol Cymru yn y Cynnig	22,796,537
Taliadau a godir yn uniongyrchol ar Gronfa Gyfunol Cymru	920,251
Cronfeydd heb eu clustnodi	-111,690
Amcangyfrif o Gyfanswm y Taliadau	23,605,098

Nodiadau:

1. Mae Adran 125(3) o'r Ddeddf yn datgan bod yn rhaid i gynnig y gyllideb flynyddol gael ei ategu gan ddatganiad ysgrifenedig gan y Gweinidogion, yn dangos:
 - i. cyfanswm y taliadau y maent yn amcangyfrif a wneir ar gyfer y flwyddyn ariannol o dan Adran 118(1);
 - ii. cyfanswm y taliadau y maent yn amcangyfrif a wneir i Weinidogion Cymru, y Prif Weinidog neu'r Cwnsler Cyffredinol ar gyfer y flwyddyn ariannol gan Weinidogion y Goron ac adrannau'r llywodraeth; a
 - iii. cyfanswm y taliadau y maent yn amcangyfrif a wneir i Weinidogion Cymru, y Prif Weinidog neu'r Cwnsler Cyffredinol ar gyfer y flwyddyn ariannol heblaw gan Weinidogion y Goron neu adrannau'r llywodraeth.

2. Dywed Rheol Sefydlog 20.28(iii) fod rhaid cael cysoniad rhwng yr amcangyfrifon o'r symiau sydd i'w talu i mewn i Gronfa Gyfunol Cymru gan yr Ysgrifennydd Gwladol a'r symiau sydd i'w hawdurdodi i'w talu o'r Gronfa yn y cynnig.

Chwefror 2023